**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (55)**

**Dydd Mawrth, 11 Mawrth 2003**

# AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**

Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**

Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 3**
***Ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn. Byddwn yn awr yn pleidleisio arno. TYNNWYD YNOL***
**Cynnig i gymeradwyo o dan Rheol Sefydlog 22.25:**
*NDM1387* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25

1. Yn cymeradwyo:

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod)(Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2003.

2. Yn ystyried:

a) Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod)(Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Chwefror 2003;

b) Yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2003.

Cliciwch yma am y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Adnabod)(Diwygio) (Cymru) 2003
Cliciwch yma am Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma am yr Arfarniad Rheoliadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa

Gyflwyno

**Eitem 4**
**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Treth Gyngor (Diystyru Gostyngiad) (Diwygio) (Cymru) 2003**
*NDM1388* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Treth Gyngor (Diystyru Gostyngiad) (Diwygio) (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2003.

*NDM1389* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft Gorchymyn Treth Gyngor (Diystyru Gostyngiad) (Diwygio) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Chwefror 2003.

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Chwefror 2003.

Cliciwch yma am y Gorchymyn Treth Gyngor (Diystyru Gostyngiad) (Diwygio) (Cymru) 2003
Cliciwch yma am Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

Eitem 5
***Ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn. Byddwn yn awr yn pleidleisio arno.***
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 23.10, 23.11 & 22.25:**
*NDM1390* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
Gan weithredu yn unol â Rheolau Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11:

1. Yn cymeradwyo:

a) Y fersiwn ddrafft o'r Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs)(Amendment) Regulations 2003, y gosodwyd copi ohoni yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at yr Aelodau drwy'r e-bost ar 4 Mawrth 2003; a

b) Y Memorandwm Esboniadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at yr Aelodau drwy'r ebost ar 4 Mawrth 2003.

Cliciwch yma am y drafft o'r Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs)(Amendment) Regulations - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno
Cliciwch yma am y Memorandwm Esboniadol - Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno

Eitem 6
Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig rhif 4 - rôl y sector gwirfoddol mewn Partneriaethau Pobl Ifanc
*NDM1391* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 4) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at yr Aelodau drwy'r e-bost ar 4 Mawrth 2003.

Cliciwch yma am y Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 4) (Cymru) 2003

Eitem 7
Dadl am Faich Gwaith Athrawon
*NDM1392* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cefnogi'r camau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i leihau llwyth gwaith Athrawon yng Nghymru ac i godi safonau addysgu a chyflawniad mewn ysgolion.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

**(1)+(3)+(4)**
**(2)+(5)**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu "cefnogi'r" a rhoi "nodi'r"

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu ", sydd wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf," ar ôl "yng Nghymru".

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar y Gweinidog i roi blaenoriaeth i fynd i'r afael â phryderon yr undebau hynny nad ydynt wedi rhoi sêl bendith i'r Cytundeb Cenedlaethol ar Lwyth Gwaith Athrawon.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi bod pryderon dybryd o hyd, er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad, ynghylch y baich ar athrawon oherwydd y systemau arolygu ac asesu mewn ysgolion.

**Gwelliant 5 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn cydnabod bod athrawon yn alwedigaeth werthfawr sydd wedi cael cam gan y llywodraeth Lafur ers 1999."

**Eitem 8**
**Dadl am adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar Ffermio Organig**

*NDM1393* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar ddyfodol ffermio organig yng Nghymru, a anfonwyd at yr Aelodau drwy'r e-bost ar 4 Mawrth 2003.

**Eitem 9**
**Dadl wedi'i Henwebu gan y Blaid Geidwadol**
NDM1386 - Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn condemnio'r weinyddiaeth a arweinir gan y blaid Lafur am fethu â chadw at yr addewid a nodir yn ei maniffesto i ostwng rhestrau aros y GIG.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
**Gwelliant 1 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Dileu’r cyfan ar ôl ‘Mae’r Cynulliad Cenedlaethol’ ac yn eu lle rhoi:

1. Yn cadarnhau polisi Llywodraeth y Cynulliad o ganolbwyntio ar amseroedd aros, nid rhestrau aros.

2. Yn cydnabod y galwadau ychwanegol am driniaethau brys a thriniaethau sydd wedi’u cynllunio y mae’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru wedi’u hwynebu dros y pedair blynedd diwethaf ac sydd wedi effeithio ar amseroedd aros.

3. Yn llongyfarch staff y GIG yng Nghymru ar eu llwyddiant yn y meysydd allweddol o ran amseroedd aros, sef cardioleg, angiograffeg, cataractau ac orthopedeg.

4. Yn cymeradwyo penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu gwasanaeth sy’n seiliedig ar atal afiechyd a gofal sylfaenol a gwasanaethau iechyd cyhoeddus cadarn fel y ffordd orau o

leihau amseroedd aros yn y dyfodol.

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 12 Mawrth 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**